28 Mawrth 2023

Annwyl Glaf

**<u>PARTHED:</u> Cais gan Meddygfa Cwm Rhymni i gau safle eu meddygfa gangen yn Deri, Bargoed.**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cais gan Meddygfa Cwm Rhymni i gau safle eu meddygfa gangen yn Ffordd Riverside, Deri, Bargoed.

Os bydd y cais i gau cangen Deri yn cael ei gefnogi, bydd angen i gleifion ddefnyddio'r gwasanaethau Meddyg Teulu a ddarperir ym Mhrif Ganolfan Iechyd yn Rhymni ac/neu ym meddygfa gangen Tredegar Newydd. Bydd y ddwy feddygfa yma'n aros ar agor. Fel arall, gall cleifion ddewis cofrestru gyda phractis cyfagos arall cyn belled eu bod yn byw o fewn ffiniau'r practis dan sylw.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ystyried y cais hwn ar y cyd â Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent.

Fel rhan o'r broses hon, rydym yn awyddus i roi cyfle i gleifion sy'n defnyddio meddygfa gangen Deri roi eu barn, felly rydym yn cynnal ymgysylltiad gyda chleifion sy'n 16 oed a hŷn dros gyfnod penodol.

Diben ymgysylltu â chleifion yw cael dealltwriaeth o pa mor aml yr ydych wedi ymweld â'r feddygfa gangen yn Deri i weld eich Meddyg Teulu ac/neu Nyrs, a chlywed eich barn ar unrhyw broblemau y gallech eu wynebu o ran mynychu'r brif feddygfa yn Rhymni ac/neu y feddygfa gangen yn Tredegar Newydd.

**Byddem yn hynod ddiolchgar pe gallech lenwi'r holiadur ar-lein erbyn y 22ain o Mawrth 2023.**

Gallwch gael mynediad at yr holiadur ar-lein drwy ddefnyddio'r cod QR sydd ar y dudalen nesaf, i agor y wefan, yn syml:

- Agorwch y camera ar eich ffôn symudol

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP11 5GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP11 5GH

Tel: 01495 241200

- Anelwch y camera at y cod QR, efallai y bydd angen i chi ddewis "open in browser" i gael mynediad
- Fel arall, mae sganwyr QR ar gael yn yr App Store neu’r Play Store.

Dyma'r cod QR ar gyfer ei sganio gyda ffôn

MCR, Deri Branch Closure Application Patient Engagement Questionnaire

Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth sganio'r cod QR, gallwch deipio'r cyfeiriad isod yn eich porwr gwe er mwyn cael mynediad at yr holiadur:

https://forms.office.com/e/1KzFmg1b0J

Os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth geisio cael mynediad at yr holiadur ar-lein, gofynnwch i ffrind neu berthynas eich helpu - gallant ddefnyddio eich ffôn clyfar neu’ch cyfrifiadur chi, neu ddefnyddio eu ffôn clyfar neu eu cyfrifiadur eu hunain.

Os nad oes unrhyw un ar gael i'ch cynorthwyo, yna cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241246 / 241282 / 241293 / 241258. Byddant barod i’ch helpu i lenwi'r holiadur dros y ffôn neu gallant anfon fersiwn bapur i'ch cartref. Gallwn hefyd anfon neges e-bost atoch sy’n cynnwys dolen i’r holiadur. Bydd angen i chi roi eich cyfeiriad e-bost i aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol.

Nid oes angen i chi roi eich enw na'ch cyfeiriad ar gyfer yr holiadur. Er hyn, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech nodi eich cod post. Mae'r holiadur ar gael yn y Gymraeg neu’r Saesneg ac mae opsiwn "immersive reader" i bobl sydd angen fformatau darllen eraill.

Neu, gallwch gysylltu â Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan i fynegi eich barn. Byddwn yn gweithio'n agos gyda hwy trwy gydol y broses hon – Rhif Ffôn: 01633 838516

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â’r mater yma, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241246 / 241282 / 241293 / 241258.

Yr eiddoch yn gywir,

Mkhaielle

**Melanie Laidler**
**General Manager / Interim Divisional Director**